| | |
|---|---|
| CYFARFOD | PWYLLGOR SAFONAU |
| DYDDIAD | 15, Mai, 2009 |
| PWNC | PROTOCOL CYSWLLT AELOD-SWYDDOG |
| AWDUR | DILYS PHILLIPS, SWYDDOG MONITRO |
| GWEITHREDIAD | YSTYRIED MABWYSIADU CYFUNDREFN AR GYFER ACHOSION O DORRI'R PROTOCOL. |

1. Yn ogystal â'r Côd Ymddygiad Statudol i Aelodau, mae gan gynghorau, fel arfer, brotocolau lleol yn ymwneud ag ymddygiad a chysylltiadau rhwng aelodau a swyddogion.

2. Mae'r protocolau hyn yn bwysig fel dull o hybu cydweithrediad da rhwng aelodau a swyddogion ac felly caniatau i'r Cyngor gyflawni ei ddyletswyddau yn y modd mwyaf effeithiol a phroffesiynol.

3. Atodaf i'r adroddiad hwn, gopi o brotocol cyfredol Cyngor Gwynedd ar gyswllt aelod-swyddog.

4. Dros y misoedd diwethaf mae Arweinyddion y Grwpiau Gwleidyddol ar y Cyngor, ynghyd a gweithgor o'r Pwyllgor Craffu Adnoddau a Chorfforaethol wedi rhoi sylw i gynnwys y protocol, ac wedi argymell y dylid tynhau rhywfaint ar y trefniadau pe cyfyd achos o dorri'r protocol. Mae hyn wedi codi yn sgil y sylw cynyddol ar roddir gan gyrff archwilio ac eraill i bwysigrwydd llywodraethu da o fewn cynghorau.

5. Fe welir fod y protocol yn ymwneud â'r cysylltiad rhwng swyddog ag aelod ac y gellir felly cael achos o dorri'r protocol naill a'i gan swyddog neu gan aelod. Pe cyfyd achos o dorri'r protocol gan swyddog, mae'r Gweithgor wedi rhoi arweiniad ynglŷn â datblygu cyfundrefn fydd yn caniatau i'r mater gael ei ystyried gan yr Arweinydd Portffolio perthnasol. Bydd y Gweithgor yn cyfarfod yn yr wythnosau nesaf i ddatblygu'r gyfundrefn yma ymhellach, ac yna yn dilyn cais gan yr Arweinyddion Gwleidyddol fe gyflwynir y gyfundrefn newydd i holl aelodau'r Cyngor mewn seminar.

6. Mewn perthynas ag enghreifftiau o'r protocol yn cael ei dorri gan aelod, barn y Gweithgor oedd y dylai'r elfen hon gael ei chyfeirio at y Pwyllgor Safonau gan mai y Pwyllgor hwn sydd yn y sefyllfa orau i ymdrin â honiadau yn ymwneud ag ymddygiad aelodau. Fe ellir datblygu cyfundrefn i'w chyflwyno ochr yn ochr a'r gyfundrefn ar gyfer swyddogion a byddai'n bosibl cyflwyno'r ddwy yn yr un seminar.

7. Wrth ystyried unrhyw gyfundrefn leol neu anffurfiol ar gyfer cwynion yn ymwneud ag ymddygiad aelodau, mae'n bwysig cofio rhai egwyddorion.

8. Yn gyntaf, dim ond yr Ombwdsmon sydd a'r hawl i dderbyn cwynion fod aelodau wedi torri Côd Ymddygiad Aelodau. Fel allai'r Ombwdsmon gyfeirio'r mater yn ôl i'r Swyddog Monitro i ymchwilio iddo, neu gynnal yr ymchwiliad eu hun. Ar derfyn yr ymchwiliad fe allai gyfeirio'r mater i'r Pwyllgor Safonau i'w ystyried. Mae yma botensial ar gyfer gwrthdaro buddiannau.

9. Yn ail, mae'n bwysig fod gan y Pwyllgor Safonau, wrth gyflawni ei ddyletswyddau fynediad at gyngor cyfreithiol annibynnol a diduedd. Fel rheol darperir hyn gan y Swyddog Monitro. Mewn unrhyw gyfundrefn anffurfiol, dylid sicrhau nad yw'r rhan mae'r Swyddog Monitro yn ei chwarae yn gymaint ag i'w atal rhag rhoi'r cyngor annibynnol yma i'r pwyllgor.

10. Dylai unrhyw gyfundrefn leol neu anffurfiol ar gyfer achosion o dorri'r protocol fod yn syml, hawdd i'w deall ac yn gyflym i'w gweithredu.

11. Gyda hyn mewn golwg, edrychwyd ar drefniadau o fewn awdurdodau eraill yng Nghymru. Gwelwyd bod nifer ohonynt yn cynnwys trefniadau lle ceir gwrandawiad neu ystyriaeth gan y Pwyllgor Safonau gyda phŵer i'r pwyllgor naill a'i geryddu aelod neu wneud argymhelliad i'r Cyngor y dylai aelod gael ei geryddu. Gan nad oes gan y Pwyllgor Safonau unrhyw bwerau statudol, oni bai fod adroddiad wedi ei anfon ymlaen gan yr Ombwdsmon mae'r hawl i geryddu yn dibynnu ar barodrwydd y Cyngor llawn i fabwysiadu trefn leol o'r fath.

12. Mae'r ffin rhwng ymddygiad sy'n groes i brotocol lleol ac ymddygiad sy'n groes i'r côd ymddygiad yn un denau iawn, ac weithiau fe all fod yn anodd penderfynu gwneud cwyn ffurfiol i'r Ombwdsmon a'i peidio. Mewn achosion o'r fath, ac er mwyn lleihau ar y posibilrwydd y bydd y Pwyllgor Safonau yn ymdrin â mater ddylai fod yn destun ymchwiliad Ombwdsmon, awgrymir bod angen penderfyniad buan yn y drefn ynglŷn â chyfeirio materion ymlaen at yr Ombwdsmon. Er na ellir gwahardd rhywun sydd wedi defnyddion trefn anffurfiol rhag mynd ymlaen i gyflwyno cŵyn ffurfiol o dorri'r côd ymddygiad, fe ellid annog unrhyw un sydd yn debyg o fod yn dymuno gwneud hyn i fynd yn syth at yr Ombwdsmon yn y lle cyntaf. Pe byddai'r Ombwdsmon yn gwrthod ymchwilio i'r gŵyn, yna fe ellid dod yn ôl at y drefn anffurfiol.

13. Cynigir fel man cychwyn y dylid cael trefn pedair cam.

14. Y cam cyntaf fyddai rhoi cyngor cyffredinol i'r swyddog ar y drefn, ac os yw'r mater yn debyg o ddod o fewn côd ymddygiad aelodau yntau y protocol. Er mwyn ceisio sicrhau nad yw'r Swyddog Monitro yn mynd i ymdrin â manylion unrhyw achos, awgrymir y dylai swyddog arall, e.e. y Swyddog Priodoldeb neu'r Dirprwy Swyddog Monitro ymgymryd a'r dasg hon.

15. Yr ail gam, pe byddai'r swyddog yn dymuno bwrw ymlaen gyda chwyn dan y trefniadau lleol byddai i gyfeirio'r mater i gyfarfod i'w gynnal rhwng y swyddog, yr aelod, arweinydd y grŵp gwleidyddol perthnasol a'r Prif Weithredwr. Ar y cam yma, fe allasai'r swyddog ddewis fod yn bresennol neu beidio, ac os dewis bod yn bresennol, dod ag uwch swyddog o'r adran gydag ef/hi. Bwriad y cyfarfod yma fyddai i geisio datrys y mater heb fynd ymhellach. Fe allai'r Swyddog Minitro fod wrth law i roi cyngor.

16. Y trydydd cam fyddai cŵyn i'w gwrando gerbron y Pwyllgor Safonau. Ar y cam yma, byddai gwybodaeth ysgrifenedig wedi ei gyflwyno ymlaen llaw, byddai cyfle i'r sawl sy'n cwyno, ac i'r aelodau dan sylw roi sylwadau gerbron y pwyllgor. Byddai'r Swyddog Monitro wrth law i gynghori'r pwyllgor.

17. Y pedwerydd cam yw'r argymhelliad. Yn dilyn gwrandawiad fel allai'r Pwyllgor ddod i'r casgliad nad oes unrhyw dorri wedi bod ar y protocol, bod y protocol wedi ei dorri ond nad oes angen cymryd camau pellach, neu fel all wneud argymhelliad i'r Cyngor y dylid ceryddu'r aelodau. Fe allai'r Pwyllgor hefyd wneud argymhellion i'r Cyngor ynglŷn â newid unrhyw gyfundrefnau neu roi rhagor o eglurder i'r trefniadau.

18. Mae'n bwysig nodi nad yw camau dau a thri i'w dilyn mewn trefn, ond yn hytrach eu bod yn ddewisol, h.y. fe ellir cyfeirio mater naill a'i at drafodaeth neu at y Pwyllgor Safonau yn dibynnu ar ddymuniad y sawl sy'n cwyno a pha mor debygol yw hi o gael datrysiad.

19. Gan mai datrys sefyllfaoedd o dorri'r protocol yn gyflym ac yn effeithiol yw'r prif nôd, rhagwelir mai eithriadau fydd achosion o wrandawiad gerbron Pwyllgor Safonau. Serch hynny mae gan y Pwyllgor rôl bwysig i'w chwarae wrth fonitro safonau ymddygiad yn gyffredinol ac awgrymir ei bod yn derbyn adroddiadau rheolaidd ynglŷn â chwynion a dderbynnir o dan y drefn hon. Mewn adroddiadau o'r fath, ni fydd yr aelod yn cael ei enwi ond o ddadansoddi'r ffeithiau, bydd yn bosib i'r Pwyllgor ystyried a oes unrhyw batrwm yn datblygu ac a ddylid gwneud argymhellion i'r Cyngor i'w gweithredu er mwyn gwella.

<u>ARGYMHELLIAD.</u>

20. Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried cyfundrefn bosib ar gyfer ymdrin â chwynion o dorri'r protocol aelod-swyddog, ac os yw o'r farn bod angen cyfundrefn o'r fath, rhoi arweiniad ar ddatblygu'r gyfundrefn fanwl.